

# PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED

8 HYDREF 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.E. Williams (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** D.M. Cundy a D. Thomas (yn lle T.J. Jones)

**Hefyd yn bresenol:**

A. Brown – Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol;

A. Worthy – Archwilio Cymru.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;

R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol;

A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol;

M. Owens, Cyfrifydd Cynorthwywr;

E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau;

S. Rees, Cyfieithydd Ar y Pryd.

**Rhith-Gyfarfod: 10:00yb - 11:55yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd T. J. Jones.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3. COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 16 MEHEFIN 2021**

**PENDERFYNWYD** Ilofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor ar 16 Mehefin 2021 yn gofnod cywir.

**4. ADRODDIAD YNGHYLCH YR ARCHWILIAD O DDATGANIDADAU ARIANNOL 2020-21**

Croesawyd y Pwyllgor Anwen Worthy o Archwilio Cymru i'r cyfarfod a gyflwynodd yr Adroddiad ynghylch yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed, gan fanylu ar y materion a oedd yn codi o'r archwiliad yr oedd angen eu hadrodd o dan Safon Ryngwladol ar Archwilio 260.

Nodwyd mai'r Archwilydd Cyffredinol oedd yn gyfrifol am roi barn ynghylch a oedd datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed yn olwg gywir a theg ar ei sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2021, a'i hincwm a'i gwariant yn ystod y flwyddyn honno.

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod adroddiad archwilio diamod ynghylch y datganiadau ariannol wedi'i gyhoeddi a byddai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystyried yr adroddiad terfynol maes o law.

Dymunai'r Pwyllgor ddiolch yn ddiffuant i Archwilio Cymru am wneud yr Archwiliad ac i'r Adran Bensiynau am ei holl waith caled mewn archwiliad llwyddiannus.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2020–21 (ISA260).**

### **5. DATGANIAD CYFRIFON 2020-21**

Cafodd y Pwyllgor y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2020-21 a oedd yn darparu gwybodaeth am sefyllfa ariannol, perfformiad a hyblygrwydd ariannol y Gronfa am y flwyddyn 2020-21.

Roedd y cyfrifon yn cyflwyno canlyniadau'r stiwardiaeth rheoli, hynny yw, atebolrwydd rheolwyr o ran yr adnoddau sydd wedi'u hymddiried iddynt, a sefyllfa'r asedau ar ddiwedd y cyfnod.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y prif gyfrifon a'r adroddiadau oedd yn y Datganiad o Gyfrifon fel a ganlyn:

- Cyfrif y Gronfa.
- Y Datganiad Asedau Net.
- Y Datganiad gan yr Actiwari Ymgynghori

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai'r Datganiad o Gyfrifon ar gael i'w weld ar y wefan maes o law, yn dilyn ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Datganiad o Gyfrifon 2020-21.**

### **6. COFNODION BWRDD PENSIWN CRONFA BENSIWN DYFED 16 EBRILL 2021**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod cofnodion cyfarfod Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Dyfed ar 16 Ebrill, 2021 yn cael eu derbyn.**

### **7. MONITRO CYLLIDEB 1 EBRILL 2021 - 31 MEHEFIN 2021**

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Monitro Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol o ran blwyddyn ariannol 2020/21. Nodwyd bod y sefyllfa bresennol, fel yr oedd ar 30 Mehefin 2021, yn rhagweld tanwariant o £2m o ran arian parod.

O ran gwariant, roedd effaith net y buddion taladwy a'r trosglwyddiadau allan yn dangos tanwariant o £1.2m. Roedd hynny'n bennaf oherwydd cynnydd o 3% wrth bennu'r gyllideb ar gyfer pensynwyr, y cynnydd gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn hyd yma oedd 1.75%. Roedd tanwariant o ran treuliau rheolwyr o £317k.

O ran incwm, roedd effaith net cyfraniadau, incwm buddsoddi a throsglwyddiadau i mewn yn dangos cynnydd o £536k, yn bennaf o ganlyniad i ragweld incwm buddsoddi uwch na'r hyn roeddid wedi cyllidebu ar ei gyfer.

Amcangyfrifwyd mai cyfanswm y gwariant cyffredinol oedd £102.8m ac mai cyfanswm yr incwm oedd £104.8m, gan arwain i sefyllfa llif arian gadarnhaol o £2m.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Monitro Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2021 tan 30 Mehefin 2021.**

### **8. CYSONI ARIAN PAROD FEL YR OEDD AR 30 MEHEFIN 2021**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad Cysoni Arian Parod a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed. Nodwyd ar 30 Mehefin, 2021 fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadw £11m o arian parod ar ran y Gronfa ar gyfer gofynion llif arian uniongyrchol i dalu pensiynau, cyfandaliadau a chostau rheoli buddsoddiadau.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad Cysoni Arian Parod Cronfa Bensiwn Dyfed.**

### **9. DATGANIAD STRATEGAETH FUDDSODDI DDRAFFT 2021**

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a gyflwynai'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi Ddrafft ar gyfer 2021 i'w gymeradwyo. Mae Datganiad Cronfa Bensiwn Dyfed, sy'n ofynnol o dan reoliad 7 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi mewn Cronfeydd) 2016, yn nodi strategaeth fuddsoddi gyfredol y Gronfa, yn darparu tryloywder mewn perthynas â sut y caiff buddsoddiadau'r Gronfa eu rheoli, ac yn gweithredu fel cofrestr risg lefel uchel, ac roedd wedi'i dylunio i fod ddefnyddiol i'r holl randdeiliaid.

Dywedodd y Pwyllgor ei bod yn braf nodi'r adran ar newid yn yr hinsawdd, lle'r oedd y gronfa'n cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â'r risgiau ariannol oedd yn gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd drwy ei strategaeth fuddsoddi. Yn ogystal, roedd Cronfa Bensiwn Dyfed hefyd yn ystyried polisïau Buddsoddiad Cyfrifol a Risg Hinsawdd Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Cyfeiriwyd at e-bost diweddar gan Divest Dyfed ynghylch rhoi'r gorau'n syth i fuddsoddi mewn tanwyddau ffosil. Dywedwyd mai ymgysylltu â chwmnïau oedd blaenoriaeth y Gronfa ar hyn o bryd, a sicrhau llwybr cytbwys a gwybodus o ran unrhyw fwriad i roi'r gorau i fuddsoddi yn yr asedau hyn. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai cyfarfod yn cael ei drefnu gyda Divest Dyfed mewn ymateb i'r e-bost.

Adroddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod Cyfarfod Ymgynghorol Blynyddol Cronfa Bensiwn Dyfed a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2021 yn llwyddiannus a bod adborth cadarnhaol wedi dod i law gan y cyflogwyr oedd yn bresennol.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Datganiad Strategaeth Fuddsoddi Ddrafft 2021.**

## 10. DATGANIAD STRATEGAETH ARIANNU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a gyflwynai'r Datganiad Strategaeth Gyllido i'w gymeradwyo.

Dywedwyd bod y Datganiad wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu hyblygrwydd newydd y cyflogwr o ran Trefniadau Gwasgaru Dyledion a Chytundebau Dyledion Gohiriedig.

Mae'r Datganiad Strategaeth Gyllido yn nodi strategaeth gyllido eglur a thryloyw a oedd yn nodi sut y bydd rhwymedigaethau pensiwn pob un o gyflogwyr y Gronfa yn cael eu bodloni yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Gyllido diweddaraf.**

## 11. ADRODDIAD GWEINYDDU PENSIYNAU

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a roddai ddiweddariad ar Weinyddu Pensiynau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariadau ar y gweithgareddau yn y gwasanaeth Gweinyddu Pensiynau ac roedd yn cynnwys materion rheoleiddiol, cyflogwyr newydd, y gofrestr torri amodau, i-Connect, cysoniad GMP a llif gwaith.

Nododd y Pwyllgor fod Adapt wedi dod yn gyflogwr cynllun ar 11 Mehefin 2021 yn dilyn trosglwyddo staff TUPE a bod bond ar waith ar gyfer rhwymedigaethau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Adroddiad Gweinyddu Pensiwn mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed.**

## 12. ADRODDIAD TORRI AMODAU 2021-2022

Cafodd y Pwyllgor yr Adroddiad Torri Amodau, mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed, i'w ystyried. Nodwyd gan y Pwyllgor fod Adran 70 o Ddeddf Pensiynau 2004 yn pennu'r ddyletswydd gyfreithiol i riportio achosion o dorri'r gyfraith. Mae Côt Ymarfer rhif 14, paragraffau 241 i 275, a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ym mis Ebrill 2015, yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch riportio'r achosion hyn o dorri'r gyfraith.

Cafodd Polisi Torri Amodau Cronfa Bensiwn Dyfed ei gymeradwyo gan Banel Cronfa Bensiwn Dyfed ym mis Mawrth 2016. O dan y polisi, roedd yn ofynnol i achosion o dorri'r gyfraith gael eu hadrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau os oes achos rhesymol i gredu'r canlynol:

- na chydymffurfir – neu na chydymffurfiwyd – â dyletswydd gyfreithiol sy'n berthnasol i'r gwaith o weinyddu'r cynllun;
- bod yr anallu i gydymffurfio yn debygol o fod o arwyddocâd sylweddol i'r Rheoleiddiwr wrth iddo arfer unrhyw un o'i swyddogaethau.

Nododd y Pwyllgor fod ambell achos wedi bod ers y cyfarfod diwethaf lle nad oedd cyfraniadau gweithwyr/cyflogwr wedi'u derbyn ar amser. Nid oedd adroddiad wedi gofod cael ei anfon at y Rheoleiddiwr Pensiynau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Adroddiad Torri Amodau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed.**

### **13. COFRESTR RISG 2021-2022**

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Gofrestr Risg yn tynnu sylw at yr holl risgiau a nodwyd mewn perthynas â swyddogaethau Cronfa Bensiwn Dyfed. Dywedwyd bod y gofrestr risg ar gyfer 2021-2022 wedi'i hadolygu ac na fu unrhyw newidiadau ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor.

Byddai'r risgiau yn parhau i gael eu hadolygu'n chwarterol, a byddai unrhyw newidiadau yn cael eu dwyn at sylw'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod adroddiad y gofrestr risg ar gyfer 2021/2022 yn cael ei gymeradwyo.**

### **14. DIWEDDARIAD Y GWEITHREDWR**

Cafodd y Pwyllgor adroddiad am y cynnydd diweddaraf o ran Partneriaeth Pensiwn Cymru, a oedd yn cynnwys y meysydd allweddol canlynol:-

- Daliannau Cyfredol y Gronfa
- Cynnydd Lansio'r Gronfa
- Link / Russell Investments - Diweddariad Corfforaethol ac Ymgysylltu

Roedd yr adroddiad yn cynnwys cerrig milltir yr Is-gronfeydd canlynol ynghyd â daliadau cyfredol y gronfa, cynnydd lansio'r gronfa, a diweddariad corfforaethol ac ymgysylltu LFS fel a ganlyn:-

- Cyfran 1 – Ecwiti Byd-eang
- Cyfran 2 – Ecwiti DU
- Cyfran 3 – Incwm Sefydlog
- Cyfran 4 – Marchnadoedd Datblygol

Yn ogystal, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r diweddariad Corfforaethol ac Ymgysylltu, gan gynnwys y protocol ymgysylltu ac unrhyw ddyddiadau cyfarfodydd allweddol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Diweddarau'r Gweithredwr a nodi cerrig milltir a chynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru.**

## 15. CYNLLUN HYFFORDDI 2021-2022

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad am Gynllun Hyfforddi Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer 2021-2022, i'w ystyried, a oedd yn darparu manylion am gyfarfodydd, digwyddiadau hyfforddi a'r aelodau a'r swyddogion y rhagwelwyd y byddent yn mynychu'r digwyddiadau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** nodi diweddariad Cynllun Hyfforddi Partneriaeth Pensiwn Cymru.

## 16. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

## 17. ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG YMGYNGHORYDD BUDDSODDI ANNIBYNNOL 30 MEHEFIN 2021

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 16 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol, a roddai wybodaeth mewn perthynas â pherfformiad y rheolwr buddsoddiadau ar gyfer pob chwarter, pob 12 mis a chyfnodau treigl o 3 blynedd, gan ddod i ben ar 30 Mehefin, 2021.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** nodi Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021.

## 18. AILSTRWYTHURO ECWITI

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 16 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.

Cafodd y Pwyllgor adroddiad ar Gam II Ailstrwythuro Ecwiti a ddarparodd gynigion ynghylch ail gam cam camau gweithredu arfaethedig y Gronfa gyda'r nod o leihau ôl troed carbon a gwella'r llif arian a gynhrychir o'r portffolio.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** fod y cynigion, y manylwyd arnynt yn yr adroddiad Cam II Ailstrwythuro Ecwiti, yn cael eu cymeradwyo.

## **19. ADRODDIAD PERFFORMIAD NORTHERN TRUST 30 MEHEFIN 2021**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 16 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 30 Mehefin 2021 a oedd yn nodi dadansoddiad o berfformiad o ran lefel y gronfa gyfan a chan y rheolwr buddsoddi am y cyfnodau cyn i'r gronfa gychwyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 30 Mehefin 2021.**

## **20. ADRODDIADAU'R RHEOLWR BUDDSODDI AR 30 MEHEFIN 2021**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 16 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiadau rheolwyr buddsoddi a oedd yn nodi perfformiad pob rheolwr fel yr oeddent ar 30 Mehefin 2021.

BlackRock - Adroddiad Chwarterol 30 Mehefin 2021

Schroders - Adroddiad Buddsoddi Ch2 2021

Grŵp Partneriaid - Cyllid Chwarterol Mehefin 2021

Cronfa Tyfu Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru - 30 Mehefin 2021

Cronfa Credyd Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru - 30 Mehefin 2021

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiadau'r rheolwr buddsoddi ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed.**

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**